# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Deganwy / Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 17 Hydref 2017

Dyddiad cyhoeddi: 18 Ionawr 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-214-7



© Hawlfraint y Goron 2018

## Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ................................................................................ 6

3. Yr hyn a ganfuom........................................................................................... 7

Ansawdd profiad y claf ........................................................................................8

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ....................................................................12

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth............................................................17

4. Beth sydd nesaf? ......................................................................................... 19

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol...................................................... 20

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ..........21

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ............................................................23

Atodiad C – Cynllun gwella...............................................................................24

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Deganwy yn 125 Heol yr Orsaf, Conwy, LL31 9EJ, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 17 Hydref 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir gwybodaeth bellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, daethom ar draws peth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y cleifion yn cael eu trin â pharch, bod gan y practis brosesau priodol ar gyfer sicrhau bod offer yn ddiogel i'w defnyddio, a bod gan y practis amrediad o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperid
- Roedd yr offer a'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol yn lân ac yn daclus ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda yn gyffredinol
- Arddangoswyd proses drwyadl gan y staff ar gyfer glanhau a sterileiddio offerynnau deintyddol
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod cyfarpar pelydr-X a dadheintio yn cael eu defnyddio gyda’r nod o hyrwyddo diogelwch y staff a’r cleifion
- Roedd gan y staff fynediad da at hyfforddiant a chymorth gan dîm ehangach y practis

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella’r canlynol:

- Diweddaru gwybodaeth ynghylch cwyno o fewn taflen y practis ac ar y wefan i gynnwys manylion cyswllt AGIC
- Trefniadau ffurfiol ar gyfer cael gwared ar feddyginiaeth
- Trwsio gwaelod cadair ddeintyddol yn un o'r ystafelloedd triniaeth

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Deganwy Dental Practice provides services to patients in the Conwy area. The practice forms part of dental services provided within the area served by Betsi Cadwaladr University Health Board.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys rheolwr y practis, tri deintydd, saith nyrs ddeintyddol, dau hylenydd a dau dderbynnydd.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod staff y practis yn gweithio'n galed i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel a phrofiad cadarnhaol i'r cleifion.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a moesgarwch gan dîm y practis. Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperir gan y practis.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom ofyn i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Yn gyfan gwbl, derbyniwyd 20 o holiaduron wedi'u cwblhau gennym. Roedd y rhan fwyaf o'r holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis am fwy na dwy flynedd.

Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn gadarnhaol iawn. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo, ac ymysg rhai o'r ymatebion roedd:

> *"Eisoes mor berffaith ag y gallai fod!"*
>
> *"Gwasanaeth rhagorol. Y gorau dw i erioed wedi bod ynddo."*
>
> "Mae'r practis deintyddol yn darparu gofal a sylw rhagorol. Rydym wedi derbyn triniaeth dda iawn fel teulu."

### Cadw'n iach

Gwelsom fod y practis yn arddangos amrywiaeth o daflenni hyrwyddo iechyd yn y man aros. Roedd hyn er mwyn hyrwyddo'r angen i gleifion ofalu am eu hiechyd a'u hylendid eu hunain.

Roedd arwyddion 'dim ysmygu' wedi'u harddangos yn y practis drwyddi draw, a oedd yn cadarnhau'r pwyslais a roddir ar gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch safleoedd di-fwg.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

Gwelsom y staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, parchus a phroffesiynol. Roedd yn ymddangos bod y staff yn dîm bach, cyfeillgar, a gwelsom ryngweithiadau moesgar a chwrtais gyda'r cleifion. Roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn eu bod wedi cael eu trin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Cadarnhaodd y staff eu bod yn gallu rhoi preifatrwydd i gleifion pe baent am drafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol â'r tîm deintyddol i ffwrdd o'r cleifion eraill.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd y wybodaeth ynghylch prisiau cyffredinol ar gyfer triniaeth mewn canllaw prisio, a oedd ar gael fel llyfryn ac ar wefan y practis. Roedd y cleifion yn cael eu hysbysu'n glir ynghylch prisiau penodol mewn perthynas â chynlluniau triniaeth unigol. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gwybod faint y gallai eu triniaeth ei chostio.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo'n rhan o'r penderfyniadau a wneir ynghylch eu triniaeth i'r graddau yr oeddent yn dymuno, a'u bod wedi cael eu helpu i ddeall yr opsiynau triniaeth oedd ar gael. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a lenwodd holiadur wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth glir ynglŷn â'u triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, y costau cysylltiedig, a sut roedd y rhain yn cael eu cyfrifo.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn ystyried eu hunain i fod yn siaradwyr Cymraeg. O blith y cleifion hyn, dywedodd un ohonynt ei fod yn gallu siarad â'r staff yn Gymraeg bob amser, a dywedodd y lleill wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn Gymraeg pan oeddent yn dymuno dim ond o bryd i'w gilydd, neu byth. Fodd bynnag, gwnaethom gadarnhau bod staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi yn y practis, a bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod cleifion yn derbyn gwasanaeth yn yr iaith o'u dewis.

## Gofal amserol

Gwelsom fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd staff y broses a ddefnyddir i roi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiadau, a gwelsom bolisi practis i gefnogi'r trefniant hwn.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i gleifion, pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arnynt. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos ar brif ddrws y fynedfa, roedd yn nhaflen wybodaeth y practis, ac fe'i rhoddid hefyd ar neges y peiriant ateb. Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys ganddynt.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion a chanfuom eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd yr holl opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi ac roedd pob claf yn rhoi cydsyniad i'w driniaeth.

Cadarnhaodd y rhan fwyaf o gleifion eu bod yn cael eu cynnwys i'r graddau yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth unigol. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaethau ac opsiynau'n cael eu trafod gyda'r cleifion.

Roedd hanesion meddygol cleifion yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ym mhob ymweliad. Gwnaeth yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Canfuom fod mynediad at y practis yn dda. Roedd ramp ar gael i gynorthwyo cleifion ag anawsterau symudedd i gyrraedd y brif fynedfa. Roedd tair ystafell driniaeth yn cael eu defnyddio gan y practis, pob un ohonynt wedi'u lleoli ar y llawr daear.

Roedd toiledau ar gael i'w defnyddio gan gleifion ar y llawr daear, gyda mynediad da ar gyfer pobl ag anawsterau symudedd.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer cwynion. Roedd gwybodaeth i gleifion ynghylch sut i leisio pryder neu gŵyn wedi'i harddangos yn y dderbynfa ac wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion.

Cawsom ein hysbysu nad oedd y practis yn derbyn llawer o gwynion a bod y rhain yn cael eu datrys yn syth lle bo hynny'n briodol. Roedd cofnod o'r cwynion yn cael ei gynnal a'i gadw. Roedd hyn yn caniatáu i'r staff fonitro a rhoi sylw i unrhyw themâu neu dueddiadau cyffredin mewn perthynas â'r cwynion a dderbyniwyd.

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau roeddent yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Dywedodd ychydig dros draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na ofynnwyd iddynt ynghylch eu barn ar y practis deintyddol, er enghraifft, trwy holiaduron cleifion. Er hynny, canfuom fod arolygon bodlonrwydd cleifion yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod blwch sylwadau gyda chardiau sylwadau yn y man aros er mwyn galluogi cleifion i fynegi eu barn am y gwasanaeth.

Canfuom fod angen diweddaru'r wybodaeth am gwynion yn nhaflen y practis, ac ar y wefan, er mwyn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Diweddaru taflen y practis a'i wefan i gynnwys manylion cyswllt AGIC.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau mae'r gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd safle'r practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl pob golwg, yn fewnol ac yn allanol.

Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i arddangos bod offer pelydr-X a chyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio mewn modd diogel.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Canfuom fod y practis wedi ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol, a bod yr ystafelloedd triniaeth yn lân ac yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda. Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y practis deintyddol yn hynod lân yn eu barn nhw.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol fannau o amgylch y practis, a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Roedd profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar offer trydanol yn y 12 mis diwethaf, yn unol ag argymhellion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.[1]

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchir gan y practis. Gwelsom wastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel mewn man caeedig wrth aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractwyr. Gwnaethom drafod yr angen i'r staff sicrhau bod yr holl wastraff clinigol yn cael ei roi'n uniongyrchol mewn bagiau plastig oren dynodedig yn hytrach na chael ei roi mewn bagiau plastig du yn gyntaf. Gwnaeth rheolwr y practis gyflawni hwn yn ystod yr arolygiad.

Roedd gwastraff nad yw'n beryglus (gwastraff domestig) yn cael ei gasglu trwy drefniadau gyda chwmni preifat.

Gwelsom fod hen fersiwn o'r poster deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn cael ei harddangos. Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis at hyn, a drefnodd i archebu poster newydd ar unwaith. Rhoddwyd copi i ni o'r anfoneb archebu fel tystiolaeth o hyn.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio ddynodedig wedi'i chyfarparu'n dda a oedd yn bodloni'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen bolisi ac arweiniad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).[2]

Roedd yr offer dadheintio a chabinetau yn yr ystafell ddadheintio mewn cyflwr da yn ôl pob golwg. Roedd yr arwynebau gwaith a'r lloriau yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio.

Roedd gan y practis fynediad at ddau awtoclaf[3] a gwelsom dystysgrif arolygu i ddangos eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn

---

[1] http://www.hse.gov.uk/pubns/books/hsg107.htm

[2] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi arweiniad i weithwyr proffesiynol ynghylch dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

cael eu cynnal, a bod llyfrau cofnodion yn cael eu cadw, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Dangoswyd proses ddadheintio drwyadl gan y staff, a gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio.

Roedd offerynnau'n cael eu storio'n briodol i osgoi croes-heintio. Roedd y dyddiadau ar gyfer defnyddio neu ailbrosesu offerynnau (eu glanhau a'u sterileiddio) wedi cael eu cofnodi yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau ym mis Gorffennaf 2017, i nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd. Lle roedd meysydd i'w gwella wedi cael eu nodi gan y practis, roedd staff wedi cymryd camau i roi sylw i'r materion hyn.

### Rheoli meddyginiaeth

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu). Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y cyffuriau a'r offer argyfwng wedi cael eu gwirio'n rheolaidd a'u bod o fewn eu dyddiadau dod i ben.

Cawsom ein hysbysu bod meddyginiaeth nad oedd yn cael ei defnyddio yn cael ei dychwelyd i'r fferyllfa. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion yn cael eu cadw ynglŷn â gwaredu ar feddyginiaeth. Gwnaethom awgrymu y dylid ffurfioli trefniadau er mwyn i gadarnhad ysgrifenedig, ar ffurf nodiadau trosglwyddo, gael ei dderbyn pan fo meddyginiaeth yn cael ei dychwelyd i'r fferyllfa neu'n cael ei gwaredu.

Roeddem yn gallu gweld cofnodion i ddangos bod yr holl staff wedi cyflawni hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd a bod hyfforddiant diweddaru ychwanegol wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Tachwedd 2017.

---

[3] Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf, a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau drwy orfodi ager dirlawn o bwysedd uchel arnynt.

Canfuom nad oedd bag pediatrig hunan-enchwythu ar gyfer dadebru (Ambubag) na mwgwd ocsigen ar gael. Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn, a archebodd yr offer ar unwaith. Rhoddwyd copi i ni o'r anfoneb archebu fel tystiolaeth o hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r broses gwaredu ar feddyginiaeth gael ei ffurfioli er mwyn i gadarnhad ysgrifenedig, ar ffurf nodiadau trosglwyddo, gael ei dderbyn pan fo meddyginiaeth yn cael ei dychwelyd i'r fferyllfa neu'n cael ei gwaredu.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Dangosodd y cofnodion hyfforddiant fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant ac oedolion.

Roedd gan y practis bolisi ar waith a oedd yn nodi'r camau i'w cymryd, a'r sefydliadau perthnasol y gellid cysylltu â nhw, pe bai unrhyw bryderon diogelu.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis, a gwelsom eu bod yn lân ac yn daclus ac yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel yn gyffredinol. Roedd yr arwynebau yn yr ystafelloedd triniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod darn bach o rwd ar waelod un o'r cadeiriau deintyddol.

Daethom i'r casgliad fod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn oherwydd bod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod y staff clinigol perthnasol wedi cwblhau'r hyfforddiant cyfoes diweddaraf ar ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid cymryd camau i drwsio'r darn bach o rwd ar waelod un o'r cadeiriau deintyddol er mwyn hwyluso glanhau effeithiol a lleihau'r perygl o groes-heintio.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal amrediad o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau rheoli heintiau, archwiliadau o'r ystafelloedd triniaeth, cael adborth gan gleifion i helpu i nodi meysydd i'w gwella, a gwiriadau ar offer i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd archwiliadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis yn defnyddio dulliau hunanwerthuso megis archwiliadau ac asesiadau o anghenion hyfforddiant i alluogi'r tîm deintyddol i ganolbwyntio ar sut maent yn gweithio ac i ystyried gwelliannau i ansawdd y gofal a ddarperir o fewn nifer o feysydd.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu storio a'u cynnal a'u cadw'n electronig ac yn ysgrifenedig hefyd. Canfuom brosesau priodol ar waith i sicrhau diogelwch gwybodaeth a gedwir ar gyfrifiadur.

### Cadw cofnodion

Roedd tystiolaeth fod y practis yn cadw cofnodion clinigol da iawn, gan ddangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu i safon dda i sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Archwiliwyd sampl o gofnodion cleifion a chanfuom fod cofnodion yn cynnwys digon o wybodaeth ynghylch hanesion meddygol, trafodaethau a gynhaliwyd ynghylch opsiynau triniaeth, costau, risgiau, manteision, a sut y cafwyd cydsyniad y claf. Roedd y deintydd yn cofnodi bod sgrinio am ganser wedi cael ei gynnal ac y rhoddwyd cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Canfuom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir.

Roedd y practis yn cael ei reoli gan reolwr y practis gyda chymorth y deintydd arweiniol. Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr uwch staff a'u cydweithwyr. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i fynd i hyfforddiant perthnasol.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Roedd Practis Deintyddol Deganwy yn cael ei reoli gan reolwr y practis, gyda chymorth gan y deintydd arweiniol. Canfuom fod y tîm yn drefnus ac yn rhagweithiol o ran ei ddull o reoli'r practis. Lle nodwyd meysydd i'w gwella gennym, dangosodd tîm y practis barodrwydd ac ymrwymiad i fynd i'r afael â'r rhain yn brydlon.

Canfuom fod y staff yn glir ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu'n dda yn y practis. Gwelsom fod cyfarfodydd tîm a digwyddiadau hyfforddiant mewnol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, gyda chofnodion manwl i gyd-fynd â'r rhain.

Gwelsom fod amrediad cynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom fod proses ffurfiol ar waith i recriwtio staff a bod gwiriadau cefndir gofynnol yn cael eu cynnal cyn i bobl ddechrau gweithio yn y practis.

Dangosodd y cofnodion fod y staff wedi mynychu hyfforddiant ynghylch amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

Dangosodd y cofnodion fod perfformiad y staff yn cael ei arfarnu'n flynyddol, ac ategwyd hyn gan sesiynau goruchwylio chwarterol a chyfarfodydd cymorth.

Canfuom fod y deintyddion a'r staff nyrsio wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer ymarfer a bod yswiriant indemnio wedi ei drefnu.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag hepatitis B, i amddiffyn cleifion a hwythau rhag eu heintio.

Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat hefyd, a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru gydag AGIC yn cael eu harddangos fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwelsom wiriadau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis.

# 4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, ac sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bo'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Nodi'n glir lle a sut bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Rhoddir hyd at 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw i bractisau deintyddol ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Gwelsom fod hen fersiwn o'r poster deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn cael ei harddangos. | Nid oedd y poster yn cynnwys gwybodaeth gyfredol mewn perthynas ag adrodd ynghylch materion iechyd a diogelwch, a allai arwain at faterion sydd heb dderbyn sylw priodol, gan arwain at risg o niwed i gleifion, staff ac ymwelwyr. | Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis at hyn. | Trefnodd rheolwr y practis i brynu poster newydd ar unwaith. Rhoddwyd copi i ni o'r anfoneb archebu fel tystiolaeth o hyn. |
| Gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei roi mewn bagiau plastig du cyn cael ei drosglwyddo i'r bagiau plastig lliw oren a ddynodwyd ar gyfer gwastraff clinigol er mwyn ei waredu. | Mae'r arfer hwn yn cynyddu'r risg o groes-heintio. | Gwnaethom dynnu sylw rheolwr y practis at hyn. | Ymatebodd rheolwr y practis i hyn yn ystod yr arolygiad drwy hysbysu'r staff ynghylch y weithdrefn gywir ar gyfer gwaredu ar wastraff clinigol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Canfuom nad oedd bag pediatrig hunan-enchwythu ar gyfer dadebru (Ambubag) na mwgwd ocsigen ar gael. | Mae hyn yn cynyddu'r risg o niwed i gleifion gan na allai'r practis ymateb yn briodol pe bai angen dadebru plentyn. | Tynnwyd sylw rheolwr y practis at hyn. | Archebodd rheolwr y practis yr offer ar unwaith. Rhoddwyd copi i ni o'r anfoneb archebu fel tystiolaeth o hyn. |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth:Practis Deintyddol Deganwy

## Dyddiad yr arolygiad: 17 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Mae angen i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (llythrennau bras):

### Swydd:

Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth:Practis Deintyddol Deganwy

## Dyddiad yr arolygiad:17 Hydref 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Diweddaru taflen y practis a'i wefan i gynnwys manylion cyswllt AGIC. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 – Rheoliad 14 (4) (a) a (b)<br>6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Mae gwefan y practis wedi cael ei diweddaru yn unol â hyn.<br>Bydd taflenni'r practis yn cael eu diweddaru pan fyddant yn cael eu harchebu'r tro nesaf. | Louise Williams<br>Louise Williams | Tachwedd 2017<br>Mawrth 2018 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Dylai'r broses gwaredu ar feddyginiaeth gael ei | Rheoliadau | Diweddarwyd y contract gydag Initial i gynnwys casgliad bob tri mis o'r | Louise Williams | Tachwedd 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| ffurfioli er mwyn i gadarnhad ysgrifenedig, ar ffurf nodiadau trosglwyddo, gael ei dderbyn pan fo meddyginiaeth yn cael ei dychwelyd i'r fferyllfa neu'n cael ei gwaredu. | Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 – Rheoliad (1) (b)<br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, Atodiad 1<br>2.6 Rheoli meddyginiaethau | feddyginiaeth frys sydd wedi mynd heibio ei dyddiad dod i ben. | | |
| Mae angen cymryd camau i drwsio'r darn bach o rwd ar waelod un o'r cadeiriau deintyddol er mwyn hwyluso glanhau effeithiol a lleihau'r perygl o groes-heintio. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 – Rheoliad 14 (3) (b)<br>2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Mae'r darn bach wedi cael ei drwsio yn unol â'r cyngor a roddwyd. | Erik Lof | Tachwedd 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Nid oes angen gwneud gwelliannau. | | | | |

Mae angen i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (llythrennau bras):Louise Williams

## Swydd: Arweinydd tîm

## Dyddiad: 27 Tachwedd 2017